**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at County Hall, Usk - Remote Attendance on Dydd Iau, 24ain Mehefin, 2021 at 2.00 pm**

**PRESENT:** County Councillor M.Feakins (Chairman)
County Councillor A. Webb (Vice Chairman)

County Councillors: P. Clarke, D. Batrouni, D. Blakebrough, L.Brown, A.Davies, L.Dymock, A. Easson, R. Edwards, D. Evans, P.A. Fox, M.Groucutt, L. Guppy, R. Harris, J. Higginson, G. Howard, S. Howarth, R.John, D. Jones, L.Jones, P. Jones, S. Jones, P. Jordan, M.Lane, P. Murphy, P.Pavia, M. Powell, J.Pratt, R.Roden, V. Smith, B. Strong, F. Taylor, T.Thomas, J.Treharne, J.Watkins, A. Watts, S. Woodhouse and C.Edwards

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Matt Phillips | Pennaeth Cyfraith/Swyddog Monitro |
| Paul Matthews | Chief Executive |
| Peter Davies | Prif Swyddog, Adnoddau |
| Will Mclean | Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc |
| Nicola Perry | Uwch Swyddog Democratiaeth |
| Frances O'Brien | Prif Swyddog, Menter |
| Julie Boothroyd | Chief Officer Social Care, Safeguarding and Health |
| Matthew Gatehouse | Pennaeth Polisi a Llywodraethiant |
| Mark Hand | Pennaeth Llunio Lle, Tai, Priffyrdd a Llifogydd |
| Ian Saunders | Prif Swyddog Gweithredu, BywydMynwy |
| Hazel Clatworthy | Swyddog Polisi Cynaliadwyedd |
| Matthew Lewis (Cefn Gwlad) | Arweinydd Interim Perfformiad, Gwerthuso a Datblygu Rhaglen BywydMynwy |
| Rachel Lewis | Rheolwr Polisi Cynllunio |

**APOLOGIES:**

County Councillors R.J.W. Greenland, S.B. Jones and K. Williams

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Datganodd y Cynghorydd Sir Peter Fox fuddiant rhagfarnol yng nghyswllt eitem 5.4 fel tenant fferm gyda thir a ddynodir yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

Datganodd y Cynghorydd Sir Peter Fox fuddiant rhagfarnol yng nghyswllt eitem agenda 6.3 gan fod perthynas yn Bysgotwr Rhwyd Gafl.

2. **Cwestiynau Cyhoeddus**

Dim

3. **Cyhoeddiad y Cadeirydd a derbyn deisebau**

Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn deiseb gan y Cynghorydd Sir Louise Brown. Cyflwynodd y Cynghorydd Sir Brown y ddeiseb ar ran preswylwyr lleol i gyflwyno terfyn

cyflymder 20 mya yn ardaloedd preswyl Drenewydd Gellifarch a phentref Mynydd Bach, ynghyd â map dangosol. Llofnodwyd y ddeiseb gan dros 200 o bobl, 85% ohonynt o'r ardal leol.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y caiff y ddeiseb ei throsglwyddo i'r gyfarwyddiaeth berthnasol.

## 4. Adroddiadau ar gyfer y Cyngor:

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PRIF SWYDDOG AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC

Cyflwynodd y Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc ei adroddiad blynyddol, ac wedyn gwahoddwyd Aelodau i roi sylwadau.

Mewn ymateb i bryderon am gynnydd yn nifer y dysgwyr bregus yn dilyn Covid, esboniodd y Prif Swyddog y bydd y pandemig yn effeithio ar bobl mewn llawer o wahanol ffyrdd ac y caiff hynny ei ystyried yn barhaus. Sylweddolir efallai na fydd gan yr rhai sydd newydd ddod yn fregus oherwydd y pandemig y gwytnwch hyd yma ac mae'n rhywbeth i fod yn ofalus ohono. Mae ein hysgolion yn cefnogi ein plant ar sail plentyn unigol i sicrhau eu bod yn deall beth mae plant ei angen.

Cydnabyddir fod gan rai staff bryderon am ddychwelyd i'r ysgol a chafodd mesurau eu rhoi ar waith ar gyfer cefnogaeth. Cafodd cyn bennaeth ysgol ei recriwtio i fod yn fan cyffwrdd ar gyfer ein harweinwyr.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi delio gyda phontio o ysgol gynradd i ysgol uwchradd ar sail rithiol ac wedi gwneud defnydd cadarnhaol o dechnoleg.

Mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn EAS i olrhain a deall lle mae ysgolion yn gwario eu hadnoddau ac mae ffocws mawr ar sicrhau y caiff y cyllid grant ei wario ar gynlluniau a chymorth ar gyfer dysgwyr difreintiedig lle bydd y gwahaniaeth mwyaf sylweddol.

Mewn ymateb i bryderon am y bwlch mewn prydau ysgol am ddim, cyflwynwyd drafft strategaeth eisoes i'r Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a bydd swyddogion yn parhau i ddatblygu hynny. Mae swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda Thîm Dysgwyr Bregus EAS i ddeall y cynlluniau allweddol. Disgwylir y strategaeth derfynol gyda'r cynlluniau cysylltiedig yn hydref 2021.

Yng nghyswllt gwahaniaethu, mae cydweithwyr yn y Tîm Llesiant Addysg wedi gweithio'n agos gydag ysgolion i sicrhau fod ein dulliau adrodd yn effeithlon ac addas.

Diolchodd yr Aelod Cabinet Addysg i'r Prif Swyddog am ei adroddiad ar ran y Cyngor, a chanmolodd waith holl gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc.

### 5.1. NEUADD SIROL / AMGUEDDFA TREFYNWY

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Llesiant Cymunedol a Chyfiawnder Cymdeithasol yr adroddiad i hysbysu aelodau am gynnydd ar yr astudiaeth ddichonolrwydd i sefydlu cyrchfan ddiwylliannol newydd yn Neuadd Sirol Trefynwy yn cynnwys adleoli Amgueddfa Trefynwy ac adolygu storfa casgliadau yr amgueddfa. Mae'r adroddiad yn cynnwys dull gweithredu mewn camau at y ddarpariaeth newydd.

Bwriedir i'r Neuadd Sirol agor ar ddechrau gwyliau'r haf gyda chynnig dechreuol i ymwelwyr yn ei le ac ehangu'n araf fel sy'n bosibl. Gobeithir y bydd amserlenni sefydlog yn barod yn yr wythnos nesaf.

Yng nghyswllt astudiaethau dichonolrwydd blaenorol, cadarnhawyd fod hwn yn ddarn newydd o waith ac y comisiynwyd ymgynghorwyr allanol i gynnal yr astudiaeth. Mae'r ffocws ar Drefynwy yn ganlyniad Penderfyniad Cabinet Aelod Unigol a wnaed ym mis Rhagfyr 2020.

Yn nhermau'r astudiaeth ddichonolrwydd, mae cost llogi ymgynghorwyr preifat hyd yma yn £25,000.

Yn nhermau cyllid codi'r gwastad, byddai'r £250,000 y gofynnir amdano yn yr adroddiad o dderbyniadau cyfalaf yn cael ei ddefnyddio fel cyllid cyfatebol ar gyfer y cynnig codi'r gwastad pe bai hynny'n llwyddiannus.

Yng nghyswllt y cynigion ar gyfer atyniadau ar draws Sir Fynwy, mae swyddogion yn gweithio ar Strategaeth Treftadaeth MonLife, a gyllidir o Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, sydd i'w chwblhau tuag at ddiwedd eleni.

Pan y'i rhoddwyd i'r bleidlais penderfynodd y Cyngor dderbyn yr argymhellion:

**Nodi'r cynnydd mewn cynnal astudiaeth ddichonolrwydd i sefydlu cynnig diwylliannol newydd yn y Neuadd Sirol yn cynnwys Amgueddfa Trefynwy a'r adolygiad o storfa casgliad yr amgueddfa.**

**Cymeradwyo sefydlu cam dechreuol o fewn y Neuadd Sirol a chadarnhau na fydd Amgueddfa Trefynwy yn ailagor yn Neuadd y Farchnad.**

**Ailagor rhannau allweddol o'r Neuadd Sirol ar gyfer defnydd y cyhoedd, yn amodol ar reoliadau Covid ac unrhyw gyfyngiadau sydd eu hangen i ganiatáu cwblhau darpariaeth cam 1 yn cynnwys arddangosiadau dros dro yr amgueddfa.**

**Cymeradwyo cyfraniad £250,000 o dderbyniadau cyfalaf i hwyluso cam dechreuol y gweithiau, fel yr argymhellwyd gan y Cabinet ar 9 Mehefin 2021. Bydd hyn yn ei dro yn rhoi cyfraniad arian cyfatebol at gynnig i Gronfa Codi'r Gwastad ar gyfer Trefynwy a fyddai, pe byddai'n llwyddiannus, yn galluogi cyflawni y weledigaeth tymor hirach.**

**Adroddiadau i'w cyflwyno i aelodau yn y dyfodol wrth i'r cynigion hirdymor ar gyfer y Neuadd Sirol, Trefynwy a storfa casgliad yr amgueddfa gael eu datblygu ymhellach.**

## 6. DIWEDDARIAD O'R STRATEGAETH ARGYFWNG HINSAWDD

Cyflwynodd Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdogaeth a Seilwaith adroddiad yn nodi'r cynnydd ar gynllun gweithredu Argyfwng Hinsawdd Sir Fynwy sy'n amlinellu sut mae'r cyngor yn bwriadu gostwng ei allyriadau carbon i sero net erbyn 2030, fel yr ymrwymwyd iddo yn natganiad Argyfwng Hinsawdd y Cyngor ym mis Mai 2019.

Canmolodd y Cynghorydd Sir Groucutt waith Hazel Clatworthy, Swyddog Polisi Cynaliadwyedd. Gofynnodd os yw'r Cyngor yn cydnabod yr argyfwng hinsawdd pan mae'r swyddog arweiniol yn gweithio'n rhan-amser. Diolchodd yr Aelod Cabinet iddo am ei sylwadau cadarnhaol a chydnabu ei bryderon gan ychwanegu fod hyn yn cael ei gyfarch.

Gofynnwyd ein bod yn symud yn gyflymach at gerbydau trydan. Atebodd yr Aelod Cabinet ein bod hefyd angen y capasiti i wefru cerbydau a bod cynlluniau ar gyfer depot newydd yn ne'r Sir yn y dyfodol.

Tynnwyd sylw am faterion yn ymwneud â thorri gwair a gweledEdd.

Soniwyd am y datgysylltiad rhwng y strategaeth hinsawdd a datblygu ffyrdd newydd. Cytunodd yr Aelod Cabinet i roi data yn ymwneud â traffig segur vs. y cynnydd mewn traffig.

Cyfeiriwyd at Orsaf Magwyr a sut y cafodd ei chynnwys ym mholisi Llywodraeth Cymru erbyn hyn a sut y dylai gael ei dangos yn y cynllun gweithredu a chynnydd dilynol.

Awgrymwyd llifogydd a risg llifogydd fel ychwanegiad i'r Cynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at fannau gwefru cyflym a dywedodd fod strategaeth yn ei lle gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i wneud gwelliannau ar draws Prydain. Dywedodd ein bod yn dal i edrych am gerbydau addas yng nghyswllt casglu sbwriel.

**Pan y'i rhoddwyd i'r bleidlais penderfynodd y Cyngor dderbyn yr argymhellion:**

**Bod y Cyngor yn derbyn diweddariad cynnydd ar gamau a gymerir i ostwng allyriadau carbon yr awdurdod yn unol â'r ymrwymiad polisi a gytunwyd ganddo.**

**Bod y Gweithgor Argyfwng Hinsawdd yn cael y dasg o ddiweddaru'r cynllun gweithredu i adlewyrchu'r dystiolaeth ddiweddaraf a datrysiadau posibl i gyflawni'r sefyllfa polisi a gytunwyd gan y Cyngor.**

## 7. STRATEGAETH A FFAFRIR CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR FYNWY

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Economi yr adroddiad i hysbysu'r Cyngor am baratoi Strategaeth a Ffafrir y Cynllun Datblygu Lleol Newydd a cheisio cymeradwyaeth y Cyngor i gyhoeddi'r Strategaeth a Ffafrir ar gyfer ymgynghoriad statudol/ymgysylltu ac ymgyfraniad rhanddeiliaid.

Yn dilyn yr ymgyfraniad rhanddeiliaid, ymgysylltu ac ymgynghori ar y Strategaeth a Ffafrir, caiff yr ymatebion eu casglu a'u hystyried yn ofalus. Byddir yn paratoi adroddiad ymgynghori a'i gyhoeddi yn cynnwys manylion y sylwadau ac ymateb y Cyngor iddynt. Rhoddir yr adroddiad ymgynghori a'r Strategaeth a Ffafrir gydag unrhyw welliannau i'r Cyngor tua mis Rhagfyr 2021 i geisio cymeradwyaeth i'r Strategaeth a Ffafrir. Caiff y Cynllun Adnau ei baratoi wedyn a'i ystyried gan y Cyngor cyn cyfnod statudol o chwech wythnos ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu yn haf 2022.

Wrth wneud hynny, cyflwynodd welliant i'r argymhelliad i ddarllen:

2.1 Bod y Cyngor yn cymeradwyo Strategaeth a Ffafrir y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar gyfer ymgynghori statudol/ymgysylltu ac ymgyfraniad rhanddeiliaid am gyfnod o wyth wythnos.

Atebodd y Pennaeth Creu Lleoedd, Tai, Priffyrdd a Llifogydd sylw blaenorol am wefru cerbydau trydan. Esboniodd y cafodd y Cynllun Datblygu Lleol newydd ei ddrafftio gyda'r argyfwng hinsawdd yn ganolog. Mae swyddogion yn bwriadu cynnwys mannau gwefru cerbydau trydan fel polisi yn y Cynllun Adnau.

Codwyd cwestiwn am dargedau tai a sut nad yw diwydiant lleol yn talu cyflogau i sicrhau prynu tai. Cadarnhawyd nad yw'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn nodi pwy sy'n adeiladu'r cartrefi ond mae trafodaeth ar wahân ar p'un ai yw'r Cyngor yn dod yn ddatblygydd neu'n cefnogi tai fforddiadwy mewn gwahanol ffyrdd.

# MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

## Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at County Hall, Usk - Remote Attendance on Dydd Iau, 24ain Mehefin, 2021 at 2.00 pm

*Gadawodd y Cynghorydd Sir Howarth am 16:34*

Datganodd Cynghorydd Sir Dimitri Batrouni fuddiant heb fod yn rhagfarnol fel aelod o fwrdd Cymdeithas Tai Sir Fynwy. Dywedodd fod mater ffosffadau yn broblem sylweddol. Esboniodd y Swyddog eu bod yn gwneud cynnydd da gyda thrafodaethau rhagweithiol gyda rhanddeiliaid.

*Gadawodd y Cynghorydd Sir Davies am 16:57*

**Pan y'i rhoddwyd i'r bleidlais penderfynodd y Cyngor dderbyn yr argymhellion:**

**2.1 Bod y Cyngor yn cymeradwyo Strategaeth a Ffafrir y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar gyfer ymgynghori/ymgysylltu statudol ac ymgyfraniad rhanddeiliaid am gyfnod o wyth wythnos.**

**8. Rhestr o Gynigion**

**9. Wedi ei gyflwyno gan y Cynghorydd Sir Richard John, Arweinydd y Cyngor**

*Bod y Cyngor hwn yn: Cydnabod bod cyngor mwy cynrychioladol mewn sefyllfa well i adlewyrchu barn a phrofiadau preswylwyr yn ein sir. Gofidio mai dim ond 26% o gynghorwyr Cymru sy'n fenywod ac nad oes unrhyw awdurdod lleol erioed wedi sicrhau cydbwysedd 50:50 rhwng y rhywiau. Croesawu'r gwelliant mewn cynrychiolaeth menywod ymysg cynghorwyr Sir Fynwy i 35% yn 2017. Penderfynu y bydd pob un o'r pedwar grŵp gwleidyddol yn cymryd camau i helpu Cyngor Sir Fynwy i ddod yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i sicrhau cydraddoldeb rhywiau yn 2022.*

Eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Jane Pratt.

Cefnogodd y Cynghorydd Sir Dimitri Batrouni egwyddor y cynnig a chynigiodd welliant iychwanegu: *ac i gynyddu cynrychiolaeth nodweddion gwarchodedig eraill.*

Eiliodd y Cynghorydd Sir Martyn Groucutt y gwelliant.

**Pan y'i rhoddwyd i'r bleidlais penderfynodd y Cyngor dderbyn y cynnig a'r gwelliant:**

*Bod y Cyngor hwn yn: Cydnabod bod cyngor mwy cynrychioladol mewn sefyllfa well i adlewyrchu barn a phrofiadau preswylwyr ein sir. Gofidio mai dim ond 26% o gynghorwyr Cymru sy'n fenywod ac nad oes unrhyw awdurdod lleol erioed wedi sicrhau cydbwysedd 50:50 rhwng y rhywiau. Croesawu'r gwelliant mewn cynrychiolaeth menywod ymysg cynghorwyr Sir Fynwy i 35% yn 2017. Penderfynu y bydd pob un o'r pedwar grŵp gwleidyddol yn cymryd camau i helpu Cyngor Sir Fynwy i ddod yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i sicrhau cydraddoldeb rhywiau yn 2022 ac i gynyddu cynrychiolaeth nodweddion gwarchodedig eraill.*

Yn dilyn trafodaeth penderfynodd y Cyngor  dderbyn y cynnig gyda'r gwelliant.

**10. Wedi ei gyflwyno gan y Cynghorydd Sir Paul Jordan**

*Mae Cyngor Sir Fynwy yn galw ar Gymdeithas Bêl-droed Cymru i gyhoeddi'r adolygiad o'u penderfyniad i ostwng clwb pêl-droed menywod y Fenni i haen 2. Bu clwb pêl-droed menywod y Fenni yn y gynghrair uchaf am naw mlynedd ac ef yw'r pedwerydd clwb mwyaf llwyddiannus yn hanes y gystadleuaeth. Mae'r clwb yn gryf o blaid datblygu pêl-droed menywod lleol. Mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru wedi disodli'r Fenni yn yr haen gyntaf am Aberystwyth na enillodd*

*un gêm y llynedd. Nid oes gan Gwent nawr unrhyw gynrychiolaeth er ei bod yn un o'r ardaloedd mwyaf poblog yng Nghymru. Mae gweithred Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn hollol groes i chwarae teg. Mae Clwb Pêl-droed Menywod y Fenni yn gyson yn cynnal gwir werth chwaraeon a galwn ar Gymdeithas Bêl-droed Cymru i wneud yr un fath.*

Eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Sheila Woodhouse.

Roedd Aelodau yn awyddus i gefnogi'r cynnig a phan roddwyd ef i bleidlais penderfynodd y Cyngor i dderbyn y cynnig.

**10.1. Wedi ei gyflwyno gan y Cynghorydd Sir Tony Easson**

*Mae'r cynnig hwn yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor i ddarbwyllo Cyfoeth Naturiol Cymru i ddileu eu bwriad i gyfyngu dulliau pysgota traddodiadol Rhwyd Gafl i bolisi "dal a rhyddhau" ar draws Môr Hafren. Gofynnaf i fy sylwadau gael eu cymeradwyo a'u hanfon i Cyfoeth Naturiol Cymru, Aelod Cabinet Materion Gwledig yn Llywodraeth Cymru, gan anfon copi at bob Aelod o'r Senedd sy'n cynrychioli Dwyrain Casnewydd, Trefynwy a De Ddwyrain Cymru ynghyd â'r unig Aelod o'r Senedd sy'n cynrychioli'r Democratiaid Rhyddfrydol.*

Eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Jim Higginson.

*Gadawodd y Cynghorydd Sir Debby Blakebrough y cyfarfod am 17:37*

Dywedodd Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdogaeth a Seilwaith na chafodd ei hysbysu am unrhyw ymgynghoriad am hyn a diolchodd i'r Cynghorydd Easson am ddod â'r cynnig i'r Cyngor.

Roedd Aelodau yn awyddus i gefnogi'r cynnig a phan roddwyd ef i bleidlais penderfynodd y Cyngor i dderbyn y cynnig.

**11. <u>Wedi ei gyflwyno gan y Cynghorydd Sir Kevin Williams</u>**

Tynnwyd yn ôl a'i ohirio i gyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf.

**12. <u>Wedi ei gyflwyno gan y Cynghorydd Sir Armand Watts</u>**

*Er mai dyddiad cau y Cynllun Preswylwyr Sefydlog yw 30 Mehefin 2021 mae'r cyngor hwn yn parhau i ymestyn allan i ddinasyddion ar draws Sir Fynwy i sicrhau y caiff eu hawliau fel dinasyddion eu cynnal a'u parchu. Mae'r Cyngor hwn yn nodi efallai nad yw plant o'r Undeb Ewropeaidd na wnaeth eu rhieni gais eu hunain yn sylweddoli fod angen i'w plant wneud cais, neu'n gwneud camgymeriad wrth gredu fod eu plant a anwyd yn y Deyrnas Unedig yn awtomatig yn ddinasyddion y Deyrnas Unedig ac nad oes angen iddynt wneud cais i ddod yn breswylwyr sefydlog. Felly bydd y cyngor hwn yn sicrhau ei fod yn hysbysu ei ysgolion am y bwlch posibl hwn ac yn canolbwyntio cyfathrebu ar y teuluoedd a'r cymunedau hynny y mae'n debygol yr effeithir mwyaf arnynt.*

Eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Dimitri Batrouni. Datganodd y Cynghorydd Sir Batrouni fuddiant heb fod yn rhagfarnu gan ei fod yn gweithio yn y maes hwn. Ychwanegodd ei fod yn ddoeth i'r Cyngor barhau'n ymwybodol o wahanol oblygiadau dyddiad cau 1 Gorffennaf 2021.

Croesawodd yr Aelod Cabinet Llesiant Cymunedol a Chyfiawnder Cymdeithasol y cynnig gan gydnabod pwysigrwydd annog dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd i wneud cais am statws preswylydd sefydlog. Anogodd Aelodau i rannu cyfathrebu gyda'u rhwydweithiau gwybodaeth.

Cafodd y cynnig ei gario pan gafodd ei roi i bleidlais.

*Gadawodd y Cynghorydd Sir Joanne Watkins y cyfarfod am 17:42*

## 13. Wedi ei gyflwyno gan y Cynghorydd Sir Tudor Thomas

*Mae'r cyngor hwn yn cytuno ar y gwersi sydd angen eu dysgu o ymgyrch ddiweddar cynghorwyr sir y Fenni i roi wyneb newydd ar Heol Henffordd yn y Fenni. Mae'r cyngor hwn yn galw ar yr aelod cabinet cyfrifol am briffyrdd i adolygu:*

- *Polisïau a gweithdrefnau Priffyrdd Cyngor Sir Fynwy ar gyfer trwsio a chynnal a chadw priffyrdd ar draws yr awdurdod i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn addas i'r diben.*
- *Faint o amser a gymerir i drwsio priffyrdd i sicrhau diogelwch.*
- *Cyfathrebu gyda phreswylwyr pan maent yn cwyno am briffyrdd anniogel.*

Eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Martyn Groucutt.

Diolchodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdogaeth a Seilwaith i'r Cynghorydd Sir Thomas am godi'r cynnig a manteisiodd ar y cyfle i ganmol gwaith caled ac ymdrechion y Tîm Priffyrdd. Wrth wneud hynny, cynigiodd welliant i'r cynnig

*Mae'r Cyngor hwn yn galw ar yr aelod cabinet cyfrifol am briffyrdd i barhau i adolygu polisïau a gweithdrefnau Priffyrdd Cyngor Sir Fynwy ar gyfer trwsio a chynnal a chadw priffyrdd ar draws yr awdurdod i sicrhau eu bod yn ddiogel ac addas i'r diben, ac i barhau i weithio i wella cyfathrebu gyda chwsmeriaid.*
*Mae'r Cyngor hwn yn cytuno i lobi trawsbleidiol i Lywodraeth Cymru i adolygu ei ymagwedd at gyllido, gan alw am gynigion cyllid nifer o flynyddoedd i roi sicrwydd ar gyfer prosiectau graddfa fawr sy'n ymestyn tu hwnt i un flwyddyn ariannol, a dull cyllido teg sy'n cydnabod pwysigrwydd y rhwydwaith ffyrdd mewn ardaloedd gwledig i gerddwyr, seiclwyr a defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus yn ogystal ag i geir.*
Eiliwyd gan Cynghorydd Sir Ann Webb.

Roedd rhwystredigaeth nad yw'r cynnig a ddiwygiwyd yn trin y pwyntiau a godwyd o fewn y cynnig gwreiddiol.

Croesawodd Cadeirydd Cymunedau Cryf yr awgrym y caiff ymagwedd newydd ei chyflwyno i'r Pwyllgor Dethol yn y misoedd nesaf.

Cafodd y cynnig diwygiedig ei gario pan gafodd ei roi i bleidlais. Dilynodd trafodaeth.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Dimitri Batrouni welliant i dynnu pwynt 2 o'r cynnig diwygiedig. Nid oedd yn ystyried fod pwynt 2 yn welliant i'r cynnig gwreiddiol. Eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Armand Watts.

Cafodd y gwelliant ei drechu pan gafodd ei roi i bleidlais.

Dychwelodd trafodaeth i'r prif gynnig a chafodd hyn ei gario pan gafodd ei roi i bleidlais.

## 14. Wedi ei gyflwyno gan y Cynghorydd Sir Dimitri Batrouni

*I'r Cyngor greu tasglu Bulwark a Thornwell yn cynnwys aelodau o'r gymuned, busnesau lleol, cyngor y dref a chynrychiolwyr o Gymdeithas Tai Sir Fynwy i ymchwilio opsiynau i adfywio'r rhan benodol hon o Gas-gwent.*

Eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Armand Watts.

Cynigiodd Aelod Cabinet yr Economi welliant:

*I'r Cyngor weithio gydag aelodau lleol i ymchwilio'r dull gweithredu gorau i ddatblygu tasglu Bulwark a Thornwell yn cynnwys aelodau o'r gymuned leol, busnesau lleol, cyngor y dref a chynrychiolwyr o Gymdeithas Tai Sir Fynwy i ymchwilio opsiynau i adfywio'r rhan benodol hon o Gas-gwent.*

Eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Maureen Powell.

Roedd Aelodau o blaid y cynnig gyda'r gwelliant a phan roddwyd hyn i'r bleidlais daeth hwn y prif gynnig.

Cariwyd y prif gynnig.

**15. <u>Cwestiynau gan Aelodau:</u>**

**16. <u>Gan y Cynghorydd Sir Paul Jordan i'r Cynghorydd Sir Paul Pavia, Aelod Cabinet dros Addysg</u>**

*Mae Strategaeth Argyfwng Hinsawdd a Datgarboneiddio Cyngor Sir Fynwy yn cynnwys gofyniad y bydd holl adeiladau newydd y Cyngor yn gweithredu heb ddim allyriadau carbon a bod safle presennol Ysgol Brenin Harri VIII yn un o'r adeiladau mwyaf ar stad yr Awdurdod. Pa ddulliau dylunio a technolegau sy'n cael eu cynnwys i sicrhau y bydd yr ysgol newydd yn y Fenni yn wir yn gweithredu heb unrhyw allyriadau carbon a pha ymrwymiadau a gaiff eu gwneud i sicrhau y caiff y nodweddion carbon isel hyn eu diogelu rhag unrhyw fesurau arbed cyllideb a gymerwyd cyn adeiladu?*

*Gadawodd y Cynghorydd G. Howard y cyfarfod am 18:55*
*Gadawodd y Cynghorydd D. Jones y cyfarfod am 18:56*

Atebodd yr Aelod Cabinet drwy ddiolch i'r Cynghorydd Sir Jordan am y cwestiwn. Esboniodd nad ydym ar y cam o'r broses ddylunio i roi'r lefel yma o fanylion. Rydym allan i ymgynghori ar hyn o bryd ar bensaernïaeth llywodraeth swyddogaethol yr ysgol newydd arfaethedig. Aeth ymlaen i esbonio fod yn rhaid i ni wahanu rhwng ymgynghori a chytuno ar swyddogaeth yr ysgol newydd yn hytrach na sut olwg allai fod arni. Fodd bynnag, mae carbon sero-net yn bendant iawn ar agenda prosiect Ysgolion 21ain Ganrif ac mae swyddogion wedi cynhyrchu dogfennau perfformiad a gwybodaeth ar gyfer y timau contract a dylunio sy'n gydnaws ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru a'r Cyngor i ddatgarboneiddio. Rhoddodd sicrwydd i'r Aelod y cafodd y prosiect ei ddynodi'n un ynni gweithredol carbon sero-net ac y bydd astudiaeth ddichonolrwydd yn ystod camau nesaf y prosiect yn gwerthuso technolegau carbon isel a sero-carbon priodol.

Fel cwestiwn atodol, gofynnodd y Cynghorydd Sir Jordan os y byddem yn manteisio ar gyfle'r datblygiad ysgol newydd cyffrous i ennyn diddordeb disgyblion ar draws y Fenni i ddeall effeithiau newid hinsawdd a sut y gallwn eu lliniaru.

Atebodd yr Aelod Cabinet yn gadarnhaol gan ychwanegu fod llais disgyblion yn bwysig tu hwnt ac y bu drwy'r broses ymgynghori bresennol. Gyda'r cwricwlwm newydd yn cael ei ymestyn, credai y byddai ffocws pob ysgol ar bwysigrwydd yr amgylchedd. Wrth i'r ysgol ddatblygu bydd cyfleoedd ar gyfer dysgu fel mae'n digwydd gyda'r contractwyr.

## 17. Gan y Cynghorydd Sir Martyn Groucutt i'r Cynghorydd Sir Paul Pavia, Aelod Cabinet dros Addysg

*Mae'r ddogfen ymgynghori am sefydlu ysgol pob oed 4-19 yn y Fenni yn dweud mai un o fanteision y trefniant yw 'pontio mwy effeithlon rhwng cyfnodau allweddol o ddysgu. Os felly pam nad yw'r ddarpariaeth feithrin a gaiff ei hystyried yn rhan mor bwysig o'r ddarpariaeth yn Ysgol Gynradd Deri View ar hyn o bryd yn rhan o'r cynigion ar gyfer yr ysgol newydd, i'w disodli gan ddarpariaeth gan y sector preifat na fyddai gan arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol unrhyw reolaeth uniongyrchol drosti? Beth fydd yn digwydd i staff presennol yr ysgol sy'n darparu addysg feithrin os mabwysiadir yr opsiwn a ffafrir?*

Diolchodd yr Aelod Cabinet i'r Cynghorydd Sir Groucutt am y cwestiwn. Sylweddolai ein bod yn hybu economi cymysg o ddarpariaeth addysg blynyddoedd cynnar yn Sir Fynwy sy'n darparu cyfuniad o ddosbarthiadau meithrin a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gosodiadau nas cynhelir. Wrth ddatblygu prosiect ysgol band B, penderfynwyd profi'r opsiwn o ddarparu addysg gynnar mewn lleoliad nas cynhelir yn hytrach na dosbarth meithrin yn yr ysgol drwy'r broses ymgynghori. Daw'r broses ymgynghori i ben ar 25 Mehefin 2021, felly ni wnaed unrhyw benderfyniad terfynol. Rhoddodd Aelod y Cabinet sicrwydd y rhoddir ystyriaeth i bob ymateb a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad pan wneir y penderfyniad terfynol. Ni chymerwyd unrhyw benderfyniad yng nghyswllt rhan olaf y cwestiwn. Fodd bynnag, mae gan yr Awdurdod gynllun diogelu swyddi a bydd unrhyw benderfyniad sy'n effeithio ar staff yn sicrhau bod ymgysylltu llawn gyda staff, adnoddau dynol ac undebau.

Fel cwestiwn atodol gofynnodd y Cynghorydd Sir Groucutt os yw'r Aelod Cabinet yn ymwybodol o'r gwrthwynebiad i golli darpariaeth feithrin a gynhelir yn yr ysgol newydd ymysg y gymuned leol.

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod sesiynau ymgynghori, yn neilltuol gyda rhieni a staff Deri View, wedi bod yn gryf o blaid cynnal darpariaeth feithrin fel rhan o'r ysgol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr adroddiad i'r Cabinet er penderfyniad terfynol.

## 18. Yn cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mai 2021

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 13 Mai 2021.

**The meeting ended at 7.05 pm**